# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Sut i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2009 a 5 Ebrill 2010

Adran Gwaith a Phensiynau

## Dynion wedi'u geni rhwng 6 Ebrill 1944 a 5 Ebrill 1945 Merched wedi'u geni rhwng 6 Ebrill 1949 a 5 Ebrill 1950*

### Cyflwyniad

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2009 a 5 Ebrill 2010, ond nid ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn, yna efallai y gallech wella'r swm a gewch. Gallwch wneud hyn drwy dalu hwn hyd at chwe blynedd ychwanegol o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 (fe alwn y rhain yn 'gyfraniadau gwirfoddol' yn y ffeithlen hon) gwirfoddol am flynyddoedd yn mynd yn ôl i 1975. Mae hyn yn ychwanegol i'r cyfle efallai sydd gennych yn barod i dalu cyfraniadau gwirfoddol am rhywfaint o'r chwe blynedd treth ddiwethaf.

Mae'r ffeithlen hon yn dweud wrthych am eich dewisiadau.

Nid yw talu cyfraniadau gwirfoddol yn iawn i bawb – mae'n dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Dylech gael gwybodaeth a chyngor pellach cyn gwneud unrhyw daliad. Mae adrannau 5 – 6 yn dweud wrthych sut i wneud hyn.

### 1. Beth yw cyfraniadau gwirfoddol?

Pan rydych yn gweithio rydych yn talu rhan o'ch enillion i'r llywodraeth, felly pan rydych yn ymddeol efallai gallwch gael rhywfaint o incwm cyson o Bensiwn y Wladwriaeth. Gelwir yr arian rydych yn ei dalu yn gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mewn rhai amgylchiadau efallai cewch eich trin fel eich bod wedi talu neu gael eich credydu â chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os nad oes gennych ddigon o gyfraniadau mewn blwyddyn treth, efallai y gallwch dalu cyfraniadau gwirfoddol i wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

---

*Beth os rwyf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2015?

Os ydych yn ddyn wedi'ch geni rhwng 6 Ebrill 1945 a 5 Ebrill 1950 neu'n ferch wedi'ch geni rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Hydref 1952, yn lle hynny dylech ddarllen y ffeithlen sut i gynyddu eich "Pensiwn y Wladwriaeth os rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2015".

## 2. Cyfle i dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol am flynyddoedd blaenorol

Efallai y gallwch hefyd dalu hyd at chwe blwyddyn ychwanegol o gyfraniadau gwirfoddol tuag at flynyddoedd yn mynd yn ôl i 1975, os rydych:

- wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2009 a 5 Ebrill 2010; ac
- mae gennych eisoes 20 mlynedd cymhwyso, yn cynnwys unrhyw flynyddoedd llawn o Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP); ac
- mae gennych beth bynnag un flwyddyn gymhwyso sy'n cynnwys cyfraniadau wedi'u talu, neu gyfraniadau'n cael eu trin fel eu bod wedi cael eu talu.

**Beth yw blwyddyn gymhwyso?**

Blwyddyn gymhwyso yw blwyddyn dreth pan rydych wedi talu, wedi cael eich trin fel pe baech wedi talu, neu wedi cael eich credydu gyda, digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol iddynt gyfri tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth. Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol wrth weithio, a gellir cael credydau cyfraniadau drwy, er enghraifft, wrth ofalu am eraill neu hawlio budd-daliadau penodol.

**Beth yw Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref?**

I bobl oedd wedi cyrraedd yr oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010 roedd diogelwch Cyfrifoldebau Cartref yn diogelu cofnod Yswiriant Gwladol gofalwyr am yr amser roeddynt yn gofalu am blant o dan 16 oed, neu am berson sâl neu anabl, am o leiaf 35 awr yr wythnos; ac, o 2003, gofalwyr maeth cydnabyddedig.

**A allaf dalu cyfraniadau gwirfoddol am unrhyw flynyddoedd tra'r oeddwn yn talu cyfradd gwraig briod?**

Ni allwch dalu cyfraniadau gwirfoddol am unrhyw flwyddyn dreth roeddech wedi dewis talu'r gyfradd ostyngedig gwraig briod am yr holl o'r flwyddyn honno.

**Faint fydd y cyfraniadau gwirfoddol yn costio?**

Y gost wythnosol yn 2015/16 yw £14.10, neu £733.20 y flwyddyn. Efallai bydd y gost yn newid pob blwyddyn. Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu am flwyddyn gyfan os oeddech wedi talu rhywfaint o gyfraniadau yn barod neu gyda rhywfaint o gredydau yn y flwyddyn dreth rydych eisiau talu amdani.

**Oes yna derfyn amser i dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol o dan y cyfle hwn?**

Mae gennych hyd at chwe blynedd o'r dyddiad rydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol o dan y cyfle hwn.

**Faint yn fwy o Bensiwn Y Wladwriaeth sylfaenol ychwanegol a allwn gael?**

Gall y swm amrywio i wahanol bobl. Gallai pob blwyddyn ychwanegol o gyfraniadau gwirfoddol rydych yn eu talu gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth rhwng 2% (tua £2.60 yr wythnos) a 5% (tua £5.80 yr wythnos) o'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn (£115.95 yr wythnos o Ebrill 2015). Ni all cyfraniadau gwirfoddol gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth uwchlaw'r gyfradd lawn.

**O ba bryd fyddai fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn codi?**

Bydd y cyfraniadau gwirfoddol yn cynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o pan gafodd eich taliad ei dderbyn. Mae hyn yn golygu na fydd y cynnydd yn cael ei ôl-ddyddio i'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## 3. Pethau i'w hystyried cyn talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Ni fydd pawb sy'n gallu talu cyfraniadau gwirfoddol yn cael budd o'u talu.

Dyma rhai esiamplau o amgylchiadau a allai olygu na fyddai o ychydig fudd i chi neu ddim o fudd o gwbl i chi dalu cyfraniadau yswiriant gwladol gwirfoddol:

- Gallai Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth well ostwng unrhyw fudd-daliadau yn berthnasol i incwm, er enghraifft Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, rydych chi neu eich partner yn cael ar hyn o bryd neu efallai yn ei gael yn y dyfodol
- Gallai Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth well olygu efallai eich bod yn talu mwy o dreth, oherwydd bod Pensiwn y Wladwriaeth yn drethadwy
- Efallai y gallwch ddefnyddio cyfraniadau gan eich priod neu bartner sifil, neu ddiweddar briod neu bartner sifil neu gyn briod neu bartner sifil i wella eich Pensiwn y Wladwriaeth – felly efallai na fyddwch angen talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

Rydych angen gwirio os byddwch yn well neu'n waeth allan ai peidio drwy dalu cyfraniadau gwirfoddol.

Efallai y bydd eich penderfyniad i dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn cael ei effeithio hefyd gan:

- eich disgwyliad einioes;
- y dyddiad rydych chi ac, yn lle mae'n briodol, eich priod neu bartner sifil, yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth; a'r
- nifer o flynyddoedd cymhwyso sydd gennych.

Mae'n bwysig ystyried eich amgylchiadau eich hun yn ofalus cyn i chi dalu. Nid oes hawl awtomatig i ad-daliad os, ar ôl talu, rydych yn penderfynu eich bod wedi gwneud y dewis anghywir.

## 4. Mwy o wybodaeth

Gallwch gael mwy o wybodaeth gyffredinol ar y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, a beth mae'r newid hwn efallai yn ei olygu i chi, o **www.gov.uk/state-pension**

## 5. Beth i'w wneud nesaf

Os ydych yn byw yn y DU ac yn meddwl y gall fod o fudd i chi i dalu rhywfaint o gyfraniadau gwirfoddol, gallwch ffonio Newcastle Pension Centre ar 0845 604 2931 (neu os ydych yn siaradwr Cymraeg ffonio 0845 604 2935).

Os ydych yn byw dramor, gallwch gysylltu â'r Newcastle Pension Centre (International Group) ar +44 191 218 7777.

Byddwch angen cael yn barod:

- eich enw llawn
- rhif Yswiriant Gwladol
- dyddiad geni; ac
- (i gyfeiriadau yn y DU) eich cod post.

Byddwn yn cysylltu â Chyllid a Thollau EM ar eich rhan i gael gwybod y bylchau yn eich cofnod Yswiriant Gwladol. Yna byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau y nifer o flynyddoedd o gyfraniadau gwirfoddol efallai y byddwch yn gallu prynu a esbonio'r broses ar gyfer eu talu, os mai dyna beth rydych yn penderfynu ei wneud.

## 6. Cael cyngor annibynnol

Efallai yr hoffech gael rhywfaint o gyngor annibynnol. Mae llawer o sefydliadau yn cynnig cyngor am ddim, neu gallech gael cyngor gan gynghorydd ariannol annibynnol, ond noder efallai y bydd rhaid i chi dalu am hyn.

Efallai bydd Rhan 6 o'r tudalennau Cynlluniwch eich incwm ymddeoliad yn **www.gov.uk/cymraeg** yn ddefnyddiol.

Os rydych yn penderfynu defnyddio cynghorydd ariannol sicrhewch bob amser fod y cwmni rydych yn defnyddio wedi'i gofrestru gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) fel y gallech gael at eu dulliau cwynion a chynllun iawndal os yw pethau yn mynd o'u lle. Gallwch ddod o hyd i gofrestr cynghorwyr ariannol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) yn **www.fsa.gov.uk/pages/register/**

## 7. Wrth ofyn am gyngor neu wybodaeth, gwnewch yn siŵr fod y canlynol ar gael gennych bob amser:

- eich enw llawn a chyfeiriad ar hyn o bryd
- eich dyddiad geni
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- eich cyfeiriadau blaenorol a'r dyddiadau roeddech yn byw yno (yn cynnwys unrhyw amser wedi'i dreulio'n byw dramor)
- os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, byddwch angen enw, dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol eich gŵr, gwraig neu bartner sifil
- manylion o unrhyw fudd-daliadau eraill rydych yn eu derbyn neu hawlio; a
- manylion unrhyw Fudd-dal Plant rydych wedi'i dderbyn yn y gorffennol, fel ein bod yn gallu gwirio fod Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref wedi cael ei roi ar eich cofnod.

## 8. Gwybodaeth bwysig am y daflen ffeithiau hon

Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y wybodaeth yn y daflen ffeithiau hon yn gywir o Ebrill 2015. Mae'n bosib fod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i orsymyleiddio neu ddod yn anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.